

# Cyngor Sir Penfro

# Strategaeth Hamdden

## 2018-2028






## Rhagair

Mae'r Strategaeth Hamdden hon yn nodi Gweledigaeth i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau hamdden dros y 10 mlynedd nesaf. Wrth ysgrifennu'r ddogfen hon, rydym wedi ystyried rhai o broblemau mwyaf dybryd ein hoes - sef cymdeithas sy'n heneiddio gydag anghydraddoldebau iechyd sy'n cynyddu, ymddygiad llonydd sydd ar gynnydd, lefelau gordewdra sy'n codi, Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi a chyni ariannol yn y sector gwasanaethau cyhoeddus, yr ymddengys ei fod yn ddiddiwedd, sy'n peryglu ein gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da yn y dyfodol. Ar y tudalennau hyn rydym yn nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn yn Sir Benfro; sut y byddwn nid yn unig yn goroesi ond yn ffynnu, ac wrth wneud hynny, yn ysbrydoli ein cymunedau i fynd ati i sicrhau mai nhw yw'r rhai mwyaf egnïol yng Nghymru.

Gwyddom fod gwasanaethau hamdden yn bwysig a'u bod yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at gyflawni ein hamcanion llesiant. Fodd bynnag, fel gweddill y sector cyhoeddus, rydym yn parhau i ymgodymu â thoriadau cyllidebol parhaus ac mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau am o leiaf bedair blynedd arall. Oherwydd hynny, rydym yn wynebu dewis anodd. Gallem gau canolfannau hamdden, lleihau'r ddarpariaeth i drigolion a chwtogi ar ein buddsoddiad. Neu gallem fod yn ddewr. Gallem fuddsoddi yn ein cyfleusterau a'n gwasanaethau, sicrhau bod mwy o'n trigolion yn dod drwy ddrysau ein canolfannau hamdden a cheisio ffynonellau newydd o incwm, gan ddarparu ystod ehangach o wasanaethau gwell i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r opsiwn dewrach. Gallwch ddisgwyl gweld buddsoddiad mewn safleoedd chwaraeon a hamdden blaenllaw ledled Sir Benfro, cytundeb â chymunedau i ariannu cyfleusterau newydd a newid sylweddol o ran y ffordd rydym yn sicrhau bod ein defnyddwyr wrth wraidd popeth a wnawn.

Ar hyn o bryd, mae ein trigolion yn fwy egnïol na phobl ym mhob un ond tri o'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Yn 2028, gwn mai ein trigolion ni fydd y rhai mwyaf egnïol yng Nghymru.



**Y Cynghorydd Paul Miller, Deiliad Portffolio, Economi, Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant**



## Datganiad Cenhadaeth

Rydym yn bodoli i ddarparu amrywiaeth eang o Wasanaethau Hamdden cynhwysol, llawn hwyl a diddorol o ansawdd uchel sy'n hybu llesiant corfforol, cymdeithasol ac emosiynol defnyddwyr.

Rydym yn mynd ati i ymgysylltu â phobl o bob oedran, cefndir a gallu er mwyn sicrhau y gall pawb yn Sir Benfro gael budd.



## Gweledigaeth

Erbyn 2028 byddwn wedi ysbrydoli ein cymunedau i sicrhau mai nhw yw'r rhai mwyaf egnïol yng Nghymru

## Nod Un:

Darparu cyfleusterau a gwasanaethau o ansawdd rhagorol

## Nod Dau:

Creu gwasanaeth hamdden cynhwysol, gan ddileu rhwystrau sy'n atal rhai pobl rhag defnyddio gwasanaethau hamdden

## Nod Tri:

Sicrhau ein bod mor effeithlon â phosibl a chynyddu lefelau cyfranogiad/refeniw er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy

## Nod Pedwar:

Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n gwella llesiant corfforol, cymdeithasol ac emosiynol ein defnyddwyr

## Ein Hamcanion

**01**

Cyflawni a chynnal asesiadau Quest da, o leiaf, mewn o leiaf bump o'n cyfleusterau

**02**

Datblygu ein gweithlu er mwyn sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i fynd â'r gwasanaeth i'r lefel nesaf

**03**

Gwella effeithlonrwydd, amseroldeb ac ansawdd ein cyfundrefn cynnal a chadw a rhoi cynlluniau hirdymor ar waith i uwchraddio cyfarpar/cyfleusterau neu ddarparu cyfarpar/cyfleusterau newydd yn unol â safonau'r diwydiant

**04**

Gwneud ymchwil er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau (gwirioneddol a chanfyddedig) sy'n atal rhai grwpiau ac unigolion rhag ymgysylltu â'n gwasanaethau

**05**

Gweithredu ar ganfyddiadau'r ymchwil (amcan 4) a allai gynnwys newidiadau i'r canlynol: strwythur/opsiynau prisio, y gwasanaethau a ddarperir, gweithgarwch allgymorth wedi'i dargedu, gweithgarwch marchnata wedi'i dargedu, creu partneriaethau newydd, prosiectau peilot a ariennir gan grant, ac ati

**06**

Moderneiddio dull marchnata'r gwasanaeth drwy fuddsoddi a manteisio ar dechnolegau newydd a defnyddio data mewn ffordd fwy deallus

**07**

Datblygu achosion buddsoddi i greu busnes sy'n ymwneud â gwella cyfleusterau a mentrau newydd. Rhoi'r rhai sy'n ddichonadwy yn ariannol ar waith

**08**

Datblygu strwythur aelodaeth a chodi tâl tymor canolig sy'n adlewyrchu buddsoddiadau/gwelliannau a gynlluniwyd

**09**

Ymchwilio i gyfleoedd effeithlonrwydd technolegol a 'gwyrdd' a, lle y bo'n briodol, eu rhoi ar waith a chynyddu hyd yr eithaf werthoedd contractau consesiynau

**10**

Datblygu amrywiaeth o weithgareddau/rhaglenni nad ydynt yn gysylltiedig â chwaraeon sy'n cyfrannu at anghenion hamdden ehangach dinasyddion a chymunedau

**11**

Datblygu ac ymestyn ein rhaglen o weithgareddau iechyd a llesiant ymhellach gan gynnwys targedu'r defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'n cyfleusterau

**12**

Cynnal, datblygu a gwella partneriaethau strategol a cheisio dylanwadu ar bolisi yn genedlaethol

**13**

Hyrwyddo a hwyluso perfformiad uchel a rhagoriaeth, e.e. cefnogi digwyddiad gwobrau chwaraeon blynyddol





## CYD-DESTUN STRATEGOL

Mae ein strategaeth yn ystyried ac yn adlewyrchu darpariaeth ‘hamdden’ gyffredinol yn y Sir, i gyd-fynd â'r farchnad ac atyniadau lleol, darpariaeth gan glybiau chwaraeon a chynigion ehangach megis cyrsiau golff, hamdden fasnachol ac ardaloedd awyr agored, y mae Sir Benfro yn enwog amdanynt. Diben hyn yw sicrhau dull cydategol o wella a datblygu'r hyn a gynigir gan y Sir o ran hamdden a thwristiaeth ymhellach.

Mae hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd ac yn cydnabod cyfraniad gwasanaethau hamdden at gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Chynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro sy'n nodi pedair blaenoriaeth, sef:

- ✓ Byw a Gweithio;
- ✓ Cymunedau Medrus;
- ✓ Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd;
- ✓ Diogelu ein Hamgylchedd.

y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gwella iechyd a llesiant cymunedau'r Sir.

Gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 10 mlynedd flaenorol a buddsoddiad gwerth £26m, bydd y Strategaeth Hamdden hon yn sicrhau'r canlynol:

- ✓ Gwell perfformiad a chynnydd yn yr incwm a gynhyrchir o flwyddyn gyntaf y strategaeth ar lefelau digonol i ateb yr heriau ariannol;

- ✓ Cyfeiriad clir ar gyfer y degawd nesaf;

- ✓ Cefnogaeth gan y tîm hamdden a rhanddeiliaid ehangach i gyflawni'r strategaeth

Mae Sir Benfro yn sir wledig yn bennaf a leolir yn ne-orllewin Cymru, gyda dylanwad morwrol cryf a hanes o ddatblygu sy'n seiliedig ar amaethyddiaeth, twristiaeth, amddiffyn, ynni a gweithgareddau porthladd sydd wedi'u canoli ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau. Hwlffordd yw ein tref sirol. Mae trefi eraill yn cynnwys Penfro, Doc Penfro, Aberdaugleddau, Abergwaun, Neyland, Wdig, Tyddewi, Dinbych-y-pysgod ac Arberth.

# Ffactorau Demograffig Allweddol

## Y Boblogaeth Bresennol

122,400 ar adeg Cyfrifiad 2011, sef cynnydd o 7.2% o gymharu â ffigur 2001, sef 114,131.

Mae'r boblogaeth bresennol tua 124,000

## Y Boblogaeth yn y Dyfodol

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn tyfu, gyda mewnfudo net yn bennaf gyfrifol am y twf hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhagamcanu y bydd y ffigur hwn yn cynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf i tua 128,000 (+3%).

## Dosbarthiad y Boblogaeth

Mae 44% o'r boblogaeth yn byw yn Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro, Doc Penfro, Abergwaun, Wdig a Dinbych-y-pysgod; mae 12% yn byw yn aneddiadau llai Neyland, Tyddewi, Trefdraeth, Llandudoch, Arberth, Cilgeti a Saundersfoot. Mae'r 44% sy'n weddill yn byw mewn aneddiadau llai o faint ac yng nghefn gwlad..

## Y Boblogaeth sy'n Siarad Cymraeg

Mae 16.9% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd y Sir (40%, o gymharu â 12% yn ne'r Sir).

## Strwythur Oedran

Llawer llai o bobl 20-29 oed a mwy o bobl dros 55 oed o gymharu â'r DU gyfan. Mae hyn i'w briodoli i allfudo gan bobl ifanc 18-20 oed.

Mae tua 30,250 o bobl neu 24.5% o'r boblogaeth yn 65 oed neu drosodd yn y Sir sy'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20.2%. Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth yn awgrymu y bydd y ganran hon yn cynyddu i 26.6% erbyn 2021 a 34% erbyn 2039.

Mae gan Sir Benfro boblogaeth sy'n heneiddio sy'n byw'n hirach.

## Ethnigrwydd

Mae tua 95.5% o'r boblogaeth o gefndiroedd ethnig gwyn y DU.

## Amddifadedd

Disgwyliad oes ar gyfer dynion (79.5 o flynyddoedd) a menywod (82.9 o flynyddoedd).

Mae 9% o blant yn byw mewn tlodi o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 22%.

Prin yw'r ardaloedd o amddifadedd yn Sir Benfro; lle y ceir amddifadedd, mae'n tueddu i fod yn sylweddol. Mae'r ardaloedd mwy difreintiedig wedi'u lleoli yn Llanion, Cil-maen a Garth (Hwlffordd).

## Cyfranogiad

Nododd yr Arolwg Chwaraeon Ysgolion Cenedlaethol sy'n edrych ar ffyrdd egnïol o fyw, yn 2015, fod 47% o blant a phobl ifanc 5-16 oed yn frwd Dros chwaraeon ('hooked on sport'), sy'n gynnydd o 6% o gymharu â 2013, ond islaw cyfartaledd Cymru, sef 48%.

Mae 63% o boblogaeth Sir Benfro yn egnïol ac yn cymryd rhan mewn chwaraeon, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Cyfraddau Troseddau

Mae gan Sir Benfro lefelau isel iawn o droseddau ac anhrefn ac mae'n un o'r lleoedd mwyaf diogel i fyw ynddo yn y DU. Nododd 89% o drigolion Sir Benfro a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol 2013-14 eu bod yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu hardal leol ar ôl iddi nosi. Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn 2016 oedd 5,457..

## Gordewdra

Mae gordewdra ymhlith plant yn broblem gynyddol yn Sir Benfro. Ystyrir bod 30.2% o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew. Cyfartaledd Cymru yw 26.2% a chyfartaledd y DU yw 23%. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw hyn yn cael ei esbonio, o reidrwydd, gan ddamcaniaethau traddodiadol ynglŷn â chysylltiadau rhwng gordewdra ac amddifadedd. Gall dysgu am fwyta'n iach a chynnig cyfleoedd chwarae bywiog chwarae rhan fawr wrth newid ymddygiad.

Yn seiliedig ar ymchwil a wnaed yn 2013-14 (Ymchwil Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), mae 58.5% o'r holl oedolion yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew; yn Sir Benfro y ffigur hwn y 59% (Ffynhonnell: Asesiad o Boblogaeth Gorllewin Cymru 2017).

## Iechyd, Salwch sy'n Cyfyngu ar Fywyd ac Anabledd

Mae gan 10% o blant Sir Benfro broblemau iechyd meddwl megis straen, gorbryder ac iselder.

Mae 93% o'r ysgolion yn Sir Benfro wedi cyflawni Cam 3 ac uwch y cynllun Ysgolion Iach gydag 21% yn ennill y Wobr Ansawdd Genedlaethol a 61% yn gweithio tuag ati.

Dywedodd 44% o'r bobl 65 oed a throsodd a ymatebodd i'r Arolwg Llesiant fod ganddynt o leiaf un broblem iechyd. Amcangyfrifir, erbyn 2021, y bydd gan 55,000 o bobl yng Nghymru ddementia. Mae data yn awgrymu y bydd cynnydd o 70% yn nifer y bobl â dementia yn y Sir rhwng 2015 a 2035.

Mae cyfran y bobl sy'n anabl yn cyfateb, fwy neu lai, i gyfartaledd Cymru, gyda salwch neu anabledd hirdymor yn cyfyngu ar weithgareddau 23% o drigolion Sir Benfro o ddydd i ddydd.

## Ein Perfformiad

Rydym yn wasanaeth sy'n perfformio'n dda, a ddarperir yn fewnol, ac a leolir mewn cyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor, naill ai ar safleoedd annibynnol neu'n amlach ar safleoedd a rennir â'r sector addysg (ysgolion). O ganlyniad i fuddsoddiad gwerth £26 miliwn dros y 10 mlynedd diwethaf, mae gennym gyfleusterau da iawn a phroffil cyhoeddus uchel.

Rydym yn darparu gwasanaeth hamdden effeithlon sy'n perfformio'n dda yn erbyn meincnodau'r diwydiant.

- Mae lefelau defnydd cyfredol yn uchel, o ystyried natur y cymysgedd presennol o gyfleusterau, y ddemograffeg leol a'r dalgylch;
- Ar hyn o bryd mae costau staffio fel cyfran o gyfanswm yr incwm yn cyrraedd tua phen uchaf ystodau derbyniol ar gyfer gweithredwyr allanol (gweithredwyr preifat ac ymddiriedolaethau);
- Mae'r cyfraddau Adennill Gweithredol Gros a Net cyfredol ar gyfer y rhan fwyaf o gyfleusterau yn cyrraedd lefelau disgwyliedig, o gymharu â chyfleusterau tebyg eraill. Ceir tri chyfleuster sydd islaw'r lefelau disgwyliedig – sef Canolfan Denis Hwlffordd, Neuadd Chwaraeon Tyddewi a Chanolfan Chwaraeon Thornton. Mae canlyniadau'r ymarfer meincnodi i'w priodoli'n rhannol i oriau agor cyfyngedig. At hynny, mae costau cyfleustodau uchel sydd i'w priodoli i gynllun yr adeilad yng Nghanolfan Denis Hwlffordd;
- Mae'r incwm a gynhyrchir fesul safle ffitrwydd yn cyrraedd tua phen uchaf lefelau disgwyliedig, ac eithrio dau safle - sef Canolfan Hamdden Crymych a Neuadd Chwaraeon Tyddewi.



## Heriau

Y pedair prif her rydym yn eu hwynebu yw:

1. **Lleihau costau gweithredol, heb ad-drefnu cyfleusterau, lleihau ansawdd na hygyrchedd na pheryglu diogelwch os oes modd;**
2. **Cynhyrchu mwy o refeniw o ddefnyddwyr presennol a defnyddwyr/marchnadoedd newydd (mae angen cynhyrchu incwm am y gost gyfalaf leiaf posibl, os oes modd);**
3. **Ailfrandio'r gwasanaeth a chreu proffil newydd, yn seiliedig ar fwy o ddigidoleiddio i ategu'r ddwy her uchod;**
4. **Newid canfyddiadau o'r gwasanaeth drwy egluro'r hyn y mae'n ei ddarparu ac yn ei ariannu, yn enwedig ar lefel gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i ffordd decach i rai o'r gwasanaethau a ddarperir gennym gael eu hariannu gan sefydliadau sy'n cael budd ohonynt.**



## Y cyfleoedd i ddarparu Gwasanaethau Hamdden yn Sir Benfro yn y dyfodol

01 **Lleihau Costau**

02 **Cynhyrchu Incwm**

03 **Gwella Gwasanaethau**

Mae ailddynodi'r gyllideb hamdden, naill ai drwy dynnu costau addysg neu sicrhau eu bod wedi'u hepgor o'r dulliau cyfrifo arbedion, neu ailenwi'r gyllideb er mwyn adlewyrchu'r hyn a gwmpesir ganddi yn briodol, er mwyn sicrhau bod y cymorthdaliadau cudd ar gyfer defnydd addysgol am ddim yn glir, yn bedwerydd ffactor, nad yw'n cynhyrchu unrhyw incwm ychwanegol ynddo'i hun, ond sy'n bwysig iawn o ran canfyddiad mewnol.






## Gweithredu

Bydd rhoi'r Strategaeth Hamdden ar waith yn gofyn am newid a gweithredu mewn sawl maes. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi wynebu cyfres debyg o heriau a newidiadau wrth geisio lleihau costau refeniw, gan ddatblygu a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar yr un pryd.

Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol sy'n wynebu heriau tebyg, er mwyn lleihau costau refeniw, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a mabwysiadu'r agenda iechyd a llesiant, bydd angen gwneud newidiadau mewn sawl maes e.e. lleihau costau, cynhyrchu refeniw, newidiadau i strwythurau rheoli gweithredol a'r ffordd y defnyddir adnoddau, ynghyd â dulliau gweithredu amgen o ran marchnata, aelodaeth a phrisio.

## DATBLYGU'R STRATEGAETH

Mae cyfleoedd a nodwyd i wneud newidiadau yn Sir Benfro yn cynnwys: .

01

**Lleihau Costau**

1. Lleihau costau gweithredu drwy newid rhai oriau agor mewn cyfleusterau llai o faint
2. Newid y strwythur Aelodaeth a'r hyn a gynigir
3. Manteisio i'r eithaf ar y dyfarniad diweddar ynglŷn â TAW er mwyn lleihau costau
4. Ymestyn y rhaglen gydleoli ymhellach ar safleoedd penodol
5. Ad-drefnu'r ddarpariaeth – nifer y gwasanaethau, neu'r math o wasanaethau, a ddarperir
6. Gweithio mewn partneriaeth â chlybiau a all, wedyn, o bosibl chwarae rhan wrth reoli cyfleusterau h.y. trosglwyddo asedau
7. Newid strwythur cyflawni gweithredol
8. Newid cytundebau refeniw blynyddol i gontract tymor hwy – mae'n rhoi mwy o sicrwydd ar y ddwy ochr ac yn darparu ar gyfer gwaith cynllunio tymor hwy e.e. RNLI
9. Ymchwil bellach i giosgau hunanwasanaeth



02

## Cynhyrchu Incwm

1. Buddsoddi cyfalaf mewn cyfleusterau newydd er mwyn cynhyrchu incwm ychwanegol
2. Buddsoddi cyfalaf mewn darpariaeth ffitrwydd - ystafelloedd ffitrwydd a stiwdios troi mwy o faint - Canolfan Hamdden Hwlffordd. Bydd cynyddu nifer yr aelodau a'r defnydd a wneir o ddarpariaeth o'r fath yn helpu i gynhyrchu refeniw ychwanegol heb gynyddu costau gweithredol
3. Datblygu caffis newydd – Canolfannau Hamdden Abergwaun a Phenfro
4. Datblygu caeau chwarae mewn partneriaeth ag ysgolion a chlybiau er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf posibl ohonynt
5. Sicrhau bod y ddarpariaeth yn ategu darpariaeth y sector preifat e.e. Blue Lagoon
6. Defnydd mwy deallus o ddata aelodau drwy ap ar-lein (nad yw'n ddwyieithog eto) a system rheoli cydberthnasau â chwsmeriaid (CRM) well
7. Gwefan newydd a digidoleiddio prosesau marchnata ac archebu
8. Datblygu system codi tâl am bontynau er mwyn cynhyrchu digon o incwm i dalu costau cynnal a chadw o leiaf a rhoi'r system honno ar waith
9. Consesiynau - Cyflwyno telerau ac amodau amgen er budd CSP a chynhyrchu o leiaf rywfaint o elw
10. Datblygu mwy o raglenni iechyd a llesiant, sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad gan y trydydd sector e.e. mwy o ddefnydd gan sefydliadau iechyd y cyhoedd, iechyd meddwl a chymorth, grwpiau cymorth strôc, diabetes a chanser, sefydliadau rhoddwyr gwaed
11. Strategaeth brisio a phecynnau aelodaeth newydd
12. Proses ymuno well, sy'n symlach ac yn gyflymach ac sy'n galluogi'r cyfranogwr i archebu lle ar gwrs sefydlu ar unwaith, gan ei alluogi wedyn i ddefnyddio cyfleusterau - mae'n bwysig iawn hwyluso hyn tra bod y cwsmer yn yr adeilad, fel rhan o'r penderfyniad y mae wedi'i wneud i ymuno â'r cyfleuster a bod yn egnïol
13. Dull gwell o ymdrin â gwaith cynnal a chadw er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau; mae'r potensial i gaffael cymorth cynnal a chadw ar gyfer achosion brys/y tu allan i oriau yn gofyn am fwy o hyblygrwydd
14. Mwy o ddefnydd o gyfleusterau chwaraeon ar safleoedd addysg gan y gymuned yn ystod y dydd
15. Dull rhagweithiol o ddenu digwyddiadau - chwaraeon a digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â chwaraeon
16. Datblygu cyfleoedd noddi ychwanegol
17. Datblygu ardaloedd manwerthu mwy o faint a chynnig amrywiaeth ehangach o nwyddau er mwyn cynhyrchu mwy o incwm
18. Cyflwyno taliadau parcio ceir mewn canolfannau hamdden, o bosibl

1. Gweledigaeth, Datganiad Cenhadaaeth, Nodau ac Amcanion Newydd
2. Partneriaethau tymor hwy
3. Tryloywder o ran ‘cymorthdaliadau cudd’ e.e. defnydd addysgol am ddim o gyfleusterau chwaraeon
4. Cysondeb â'r Agenda Drawsnewid

03

**Gwella Gwasanaethau**





## Rhoi'r Strategaeth ar Waith

Yn seiliedig ar y newidiadau a nodwyd a ddisgrifir yn fanwl yn y tabl uchod, mae'r arbedion refeniw a awgrymir y gellid eu cyflawni fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diffyg presennol: | £2,390,373 |
| Arbedion: | £ 933,523 |
| Defnydd Addysgol am Ddim o gyfleusterau | £1,056,919 |
| **Diffyg a leihawyd:** | **£ 399,931** |

**Tabl 1: Crynodeb o Arbedion Refeniw wedi'u Blaenoriaethu**

| Maes a nodwyd ar gyfer arbedion | Cost Gyfalaf Ddangosol £000oedd | Cost Refeniw Ddangosol £000oedd | Arbedion a Nodwyd, yn ôl blaenoriaeth a blwyddyn (net – gan gynnwys cost benthyca) | | | | | | | | | | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bl1 2018/19 | Bl2 2019/20 | Bl3 2020/21 | Bl4 2021/22 | Bl5 2022/23 | Bl6 2023/24 | Bl7 2024/25 | Bl8 2025/26 | Bl9 2026/27 | Bl10 2027/28 | |
| TAW | 0 | 0 | 370,000 | | | | | | | | | | 370,000 |
| Digidoleiddio systemau archebu hamdden, gwefan, CRM, marchnata, tîm gwerthu | -20,000 | -40,000 | -40,000 | | | | | | | | | | -40,000 |
| Stiwdio droi newydd yn Hwlffordd | -30000 | -10,000 | | -10,000 | | | | | | | | | -10,000 |
| Cyflwyno ciosgau mynediad hunanwasanaeth | -20000 | -4,000 | | | -4,000 | | | | | | | | -4,000 |
| Targedau uwch ar gyfer cynhyrchu incwm o wasanaethau hamdden - sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn cyfleusterau a digidoleiddio'r gwasanaeth | | | 62,000 | 58,080 | 58,080 | 58,080 | 52,800 | | | | | | 289,040 |
| Swydd Rheolwr Hamdden | | | 53,000 | | | | | | | | | | 53,000 |
| Pwll Padlo'r Rath | | | 3,000 | | | | | | | | | | 3,000 |
| Costau Gwasanaethau Traethau | | | | | 40,000 | 63,243 | 80,000 | | | | | | 113,243* |
| Consesiynau | -30000 | | | 24,000 | | | | | | | | | 24,000 |
| Safleoedd Arlwyo yn Abergwaun a Phenfro | -10000 | | | | 6,000 | | | | | | | | 6,000 |
| Pwll Nofio Newydd Dinbych-y-pysgod | -6,000,000 | | | | | | | | 15,000 | | | | 15,000 |
| Canolfan Addysg Bellach Dinbych-y-pysgod | -7,500,000 | | | | | | | | | | 110000 | | 110,000 |
| Cwtogi ar oriau agor yn Nhyddewi | | | | 4,240 | | | | | | | | | 4,240 |
| Cynyddu gwerthiannau manwerthu | -5000 | | | | 10,000 | | | | | | | | 10,000 |
| Mwy o gyfleoedd noddi | | | | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 | | | | | | 12,000 |
| Cae Pob Tywydd Crymych | | | | | 5,000 | | | | | | | | 5,000 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys neuadd chwaraeon ag 8 cwrt | -1,000,000 | | | | | | | | | | | | -27,000 |
| Datblygu Arena Dan Do ar Safle'r 21ain Ganrif (mae angen mwy o waith ar hyn) | -2000000 | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **-16,615,000** | | **448,000** | **79,320** | **118,080** | **124,323** | **135,800** | **0** | **15,000** | **0** | **110,000** | **0** | **933,523** |
| Arbedion Dangosol o Flwyddyn i Flwyddyn o 5% ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canolig | | | 201,000 | 91,000 | 95,000 | 101,000 | 108,000 | | | | | | |

* Mae cyfanswm yr arbedion ar gostau gwasanaethau traethau, sef £183,243, yn cynnwys £70,000 am waith glanhau nas cwmpesir gan y gyllideb hamdden (a reolir gan adran arall yn CSP)

## Caeau Pob Tywydd

Yn ogystal â'r uchod, bydd y buddsoddiad posibl mewn caeau pob tywydd drwy ein cynllun buddsoddi a benthyca yn galluogi CSP i sicrhau manteision cymdeithasol ac elw ariannol am bob £1m o fuddsoddiad cyfalaf, wrth i gymunedau gymryd cyfrifoldeb am dalu o leiaf £44k y flwyddyn tuag at gostau cynnal a chadw ac arwynebu dros oes y cytundeb, gan alluogi mwy o bobl i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.



## Cadw Gwasanaethau Mewnol

Mae'r gwasanaeth mewnol presennol o ansawdd uchel ac mae eisoes yn perfformio'n dda fel y dangoswyd gan yr ymarfer meincnodi gwasanaethau a gynhaliwyd. Rydym wedi ystyried modelau cyflawni posibl eraill ar gyfer y gwasanaeth hamdden, ond mae sawl ffactor unigryw sy'n dangos yn glir mai gwasanaeth mewnol sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen.

**Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:**

### Ffactor Un:

Mae 7 o'r 10 cyfleuster hamdden yn Sir Benfro ar safleoedd ysgolion sy'n golygu nad oes fawr ddim arbedion i'w gwneud ar ardrethi (ardrethi annomestig cenedlaethol); gall yr arbedion hyn mewn meysydd eraill fod yn sylweddol ac maent yn rheswm dilys dros newid model cyflawni

### Ffactor Dau:

Mae'r dyfarniad diweddar yn achos TAW Ealing (2017) yn golygu bod awdurdodau lleol bellach yn gallu manteisio ar gostau TAW is; mewn termau real mae hyn yn golygu arbed ar gostau darparu gwasanaethau

### Ffactor Tri:

Rydym wedi ymrwymo i God y gweithlu dwy haen sy'n golygu i bob pwrpas na ellir newid telerau ac amodau cyflogaeth; mae unrhyw newid i'r model darparu gwasanaethau yn debygol o arwain at newid telerau ac amodau cyflogaeth

### Ffactor Pedwar:

Mae ein perfformiad ni cystal â pherfformiad contractwyr ac Ymddiriedolaethau eisoes ac mewn llawer o achosion mae'n well

Mae cadw'r model mewnol yn golygu mai prin yw'r cyfleoedd i leihau costau gweithredol a Gwella Gwasanaethau, am fod y gwasanaeth eisoes yn perfformio'n dda iawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod cadw'r gwasanaeth mewnol hefyd yn cynnig cyfle pwysig i gynhyrchu mwy o refeniw, os oes ymrwymiad i fuddsoddi cyfalaf yn y cyfleusterau sy'n bodoli eisoes a chyfleusterau newydd. Buddsoddi i gynhyrchu yw'r prif gyfle sydd ar gael i'r gwasanaeth hamdden mewnol. Bydd cadw'r gwasanaeth mewnol yn sicrhau y byddwn yn cael budd o'r elw o unrhyw fuddsoddiad.

Mae cadw'r gwasanaeth hamdden mewnol yn golygu y byddwn yn parhau i'w reoli, sydd hefyd yn golygu ei bod yn haws negodi partneriaethau hirdymor ac integreiddio canlyniadau iechyd a llesiant mewn prosesau darparu gwasanaethau. Bydd hefyd yn cynnig yr opsiwn gorau o ran buddsoddi gan y sector cyhoeddus, datblygu systemau marchnata digidol gwell a gwella mynediad at wasanaethau, a sicrhau cyfranogiad y gymuned er mwyn sicrhau buddiannau iechyd.

Cadw'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau hamdden yn fewnol yw'r ffordd ymlaen a argymhellir am y prif resymau hyn.

## Buddsoddi i Gynhyrchu

Mae'n amlwg y bydd cyllid yn bwysig i ni dros y pum mlynedd nesaf ac wrth roi'r Strategaeth ar waith, dylid ystyried y cyfleoedd cyllido prif ffrwd a chynlluniau cyllido peilot posibl eraill a allai fod ar gael mewn perthynas â grwpiau wedi'u targedu, a/neu fentrau gofal sylfaenol neu fentrau eraill sy'n ymwneud ag iechyd. Gall hwn hefyd fod yn faes lle y gallai dull partneriaeth ar draws awdurdodau lleol cyfagos fod yn gyfle, am y gall fod cyfle i weithio gyda mwy nag un maes iechyd y cyhoedd.

Mae ffynonellau cyllido posibl allweddol ar gyfer Gwasanaethau Hamdden yn debygol o gynnwys y canlynol:

- CSP - cyfalaf uniongyrchol neu fenthyciad, yn seiliedig ar fuddsoddi i gynhyrchu
- Chwaraeon Cymru
- Iechyd
- Llywodraeth Cymru

Mae'r cyllid cyfalaf sy'n sail i'n Strategaeth Hamdden wedi'i gynnwys yn Nhabl 1 uchod; bydd y cyllid hwn yn cefnogi buddsoddiad yn y blaenoriaethau a'r mentrau y cytunwyd arnynt i leihau costau a chynhyrchu mwy o refeniw.





## Blaenoriaethau'r Strategaeth Hamdden

Ysbrydolir ein blaenoriaethau gan botensial ein gwasanaethau ac anghenion ein cymunedau. Rydym yn canolbwyntio ar dri maes â blaenoriaeth, sef:

**Lleihau Costau**

**Gwella Gwasanaethau**

**Cynhyrchu Incwm**

## Blaenoriaeth Un – Lleihau Costau

## Canlyniadau

1. Adolygu ac ail-negodi pob contract consesiynau presennol er budd CSP.

2. Ystyried cyfleoedd i ad-drefnu cyfleusterau os na ellir nodi digon o arbedion refeniw.

3. Nodi cyfleoedd i drosglwyddo asedau a manteisio arnynt ac, o leiaf, gyfleoedd i lunio cytundebau rheoli â chlybiau/y trydydd sector lle y bo hynny'n bosibl ac yn fuddiol i CSP a'r gymuned leol.

4. Ail-negodi partneriaethau mewn perthynas â chost seilwaith twristiaeth e.e. meysydd parcio, patrolau diogelwch ar draethau, er mwyn sicrhau bod costau gwaith cynnal a chadw, glanhau, goruchwylio ac ati yn cael eu rhannu gan y rhai sy'n cael budd ohonynt.

5. Cyflawni'r newidiadau a nodwyd er mwyn lleihau costau yn y gwasanaeth presennol h.y. cwtogi oriau agor yn Neuadd Chwaraeon Tyddewi, cau'r Ganolfan Denis Fewnol, aildargedu adnoddau marchnata, ac ati.

6. Adolygu'r holl opisynau a chyfleoedd ymarferol sydd ar gael i leihau costau cyfleustodau; gwneud penderfyniad polisi o leiaf i ddefnyddio goleuadau LED yn unig a goleuadau â synhwyrydd amser ym mhob rhan o'n canolfannau hamdden megis toiledau, ystafelloedd newid, ystafelloedd storio.

7. Buddsoddi mewn technoleg hunanwasanaeth er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella llifoedd drwy dderbynfeydd/lleihau ciwiau. .

8. Adolygu'r broses cynnal a chadw bresennol a chyflwyno hyblygrwydd fel y gellir gwneud gwaith brys/y tu allan i oriau ar unwaith er mwyn lleihau'r effaith ar brofiad y cwsmer.

## Blaenoriaeth Dau – Cynhyrchu Incwm

## Canlyniadau

1. Buddsoddi cyfalaf mewn prosiectau a nodwyd - ffitrwydd, stiwdios beicio, Pwll Nofio Dinbych-y-pysgod, Canolfan Addysg Bellach Dinbych-y-pysgod, caeau pob tywydd, caffis.

2. Buddsoddi cyfalaf yn y gwaith o ddatblygu cyfleusterau estynedig yn yr Ysgol Cyfrwng Saesneg (y tu allan i'r bwletin adeiladu).

3. Buddsoddi mewn digidoleiddio Gwasanaeth Hamdden CSP ymhellach; sefydlu gwefan well sy'n benodol i Sir Benfro er mwyn cymryd mwy o archebion, ac amrywiaeth ehangach o archebion, ar-lein; datblygu prosesau marchnata digidol MWY DEALLUS a mwy effeithiol a chynnig/dull gweithredu gwell o ran rheoli cydberthnasau â chwsmeriaid.

4. Datblygu gweithgareddau awyr agored ychwanegol yn Scolton Manor – Segway, cynnig beicio estynedig, rhaffau uchel.

5. Adolygu'r strwythurau aelodaeth a phrisio presennol yn dilyn buddsoddiad a datblygu cynnig newydd; dylai'r strwythur newydd gynhyrchu refeniw ychwanegol drwy newid categorïau o aelodaeth a chynyddu ffioedd er mwyn adlewyrchu buddsoddiad cyfalaf a, lle y bo'n briodol, gyflwyno categorïau newydd o aelodaeth e.e. un sydd wedi'i dargedu at y farchnad dwristiaeth. Yr opsiwn aelodaeth gorfforaethol yw'r un mwyaf poblogaidd gyda chwsmeriaid ar hyn o bryd. Dylid ei adolygu a chynyddu'r pris fel yr ystyrir yn briodol yn y farchnad leol.

6. Ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o ddatblygu cyfleuster dringo awyr agored ar Draeth y De, Dinbych-y-pysgod, a weithredir o dan gonsesiwn.

7. Rhoi system codi tâl â mesurydd ar waith ar gyfer defnyddio pontynau dros nos os bydd yr achos busnes yn cefnogi hyn h.y. mae angen i'r incwm fod yn fwy na'r buddsoddiad cyfalaf.

8. Datblygu dull rhagweithiol o gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau - chwaraeon a digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â chwaraeon yn y canolfannau hamdden er mwyn cynhyrchu refeniw ychwanegol.

9. Gweithio gydag Ysgol Penfro i ddatblygu defnydd cwricwlaidd a chymunedol yn ystod y dydd fel cynllun peilot y gellir ei gyflwyno wedyn ledled y sir er mwyn gwella mynediad, sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o gyfleusterau a chynhyrchu incwm ychwanegol. Dylid ymgorffori'r dull hwn o weithredu wedyn yn nhrefniadau gweithredu'r Ysgolion Cyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg newydd pan fyddant yn agor.

10. Datblygu ardaloedd manwerthu mwy o faint yn y prif ganolfannau hamdden, gyda chynnig ehangach; sicrhau y caiff cynllun cyfleoedd manwerthu a'r ffordd y cânt eu cyflwyno a'u hyrwyddo eu gwella.

11. Datblygu cyfleoedd noddi newydd yn y cyfleusterau hamdden er mwyn cynhyrchu refeniw ychwanegol.

## Blaenoriaeth Tri – Gwella Gwasanaethau

### Canlyniadau

1. Mwy o waith mewn partneriaeth ac, yn benodol, manteisio i'r eithaf ar bob cronfa arian fewnol sydd ar gael lle y bydd hynny o fudd uniongyrchol i Wasanaethau Hamdden CSP o ran gwella gwasanaethau, lleihau costau neu gynhyrchu refeniw.

2. Negodi partneriaethau hwy er mwyn rhoi sicrwydd o ran cyllid e.e. gyda'r RNLI.

3. Ailstrwythuro'r adnoddau marchnata sydd ar gael a chanolbwyntio ar reoli cydberthnasau â chwsmeriaid a dulliau marchnata mwy deallus i gynyddu gwerthiannau, gwella prosesau cyfathrebu â chwsmeriaid, gweithgarwch hyrwyddo ac ati.

4. Datblygu achos busnes i sicrhau cyllid mewnol i wella systemau TG.

5. Datblygu rhaglen iechyd a llesiant sy'n cynnwys gweithgareddau wedi'u targedu at ddefnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r canolfannau hamdden.

6. Sicrhau bod tryloywder o ran cwmpas y gyllideb hamdden a'r meysydd y mae'n eu cymorthdalu.

7. Cadw prosesau cyflawni gweithredol Gwasanaeth Hamdden CSP yn fewnol a mabwysiadu dull ‘Buddsoddi i Gynhyrchu’.

8. Adolygu'r holl oriau agor ac ymgynghori â chwsmeriaid ynghylch opsiynau ar gyfer oriau agor estynedig penodol; treialu oriau a gweithgareddau estynedig am dri mis er mwyn monitro nifer y bobl sy'n manteisio arnynt a'r effaith ar incwm.

9. Adolygu'r broses ymuno bresennol a datblygu proses symlach a chyflymach, wedi'i chysylltu â system lle y gall defnyddwyr archebu lle ar gwrs sefydlu ar unwaith a defnyddio'r cyfleusterau er mwyn helpu i gynyddu'r defnydd a wneir ohonynt e.e. archebu caeau.

10. Ystyried cyfleoedd i weithio gydag awdurdodau cyfagos ar fentrau iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a allai fod yn fwy effeithiol wrth ddenu cyllid pe caent eu datblygu ar draws ardal ehangach.


Cyngor Sir Penfro - Pembrokeshire County Council